Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ceir manylion llawn ynghylch yr amodau sy'n berthnasol i bob grant ym mhob ffurflen gais, ynghyd â'r rheswm dros bob penderfyniad i gymeradwyo grant mewn perthynas â'r modd y byddant o fudd i'n cymunedau. Mae pob un sy'n derbyn grant yn llwyr ymwybodol o'r amodau sydd angen eu bodloni.

GRANTIAU 2017/2018

CYFANSWM Y CYLLID A DDYRANNWYD = £51974.80

Ceisiadau Llwyddiannus:

**<u>HAFAN CYMRU</u>**

**Siroedd**: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys

**Safe & Sound: £5000**

Amcan y prosiect hwn yw diogelu plant a phobl ifanc rhag dioddef camfanteisio rhywiol yn bersonol ac ar-lein. Bydd Hafan Cymru yn darparu sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth i rieni, gofalwyr ac unrhyw un sydd â chyfrifoldeb neu sy'n atebol am les plant a phobl ifanc.

**<u>FFORWM CYMUNEDOL PENPARCAU</u>**

**Sir:** Ceredigion

**Parth Ieuenctid Penparcau, "Y Hub": £5000**

Yn dilyn sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl i adeiladu canolfan gymunedol newydd ar gyfer trigolion Penparcau, rhoddwyd y grant hwn yn benodol i ddatblygu tu mewn y Parth Ieuenctid dynodedig. Bydd hwn yn cynnwys Pod ar gyfer gwylio ffilmiau/chwarae gemau, gweithfannau/socedau a dau liniadur, arwyddion mewnol LED, cypyrddau gosod ar gyfer storio, seddau, golau, bwrdd pŵl, lloriau a ffioedd ar gyfer gwaith adeiladu/gosod.

**<u>YMDDIRIEDOLAETH CRIMESTOPPERS</u>**

**Sir:** Sir Gaerfyrddin

**Be Fearless: £4983.80**

Fearless yw gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol Crimestoppers sy'n galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau cadarnhaol ar sail gwybodaeth ynghylch trosedd ac ymddygiad troseddol. Mewn modd unigryw, gall bobl ifanc roi gwybodaeth ynghylch trosedd yn ddienw ac yn 100% diogel i Fearless.org. Bydd prosiect 'Be Fearless' Sir Gaerfyrddin, sydd wedi ei anelu at bobl ifanc 11-16 oed, yn ceisio adeiladu ar y prosiect yng Nghymru a'i wneud yn fwy lleol. Bydd hyn yn cynnwys Cynhadledd Ieuenctid Ddwyieithog a hefyd Ymgyrch Farchnata Digidol Ddwyieithog.

**FFORWM PENTREF TRIMSARAN**

**Sir:** Sir Gaerfyrddin

**Hyrwyddo Clwb Ieuenctid: £2138**

Mae angen cyllid i gynnal cyfres o ddigwyddiadau yn y ganolfan i ymgysylltu gyda phobl ifanc yr ardal ac ennill eu hymddiriedaeth er mwyn iddynt gymryd rhan yn y cynllunio ar gyfer clybiau ieuenctid. Bydd y clybiau ieuenctid yn cael eu targedu at ddau grŵp oedran, sef bechgyn a merched 8 i 12 oed a 12 i 18 oed. Gwnaethpwyd cais i Gronfa Pobl a Llefydd y Loteri ar gyfer grant i adeiladu estyniad i ochr y cyfleuster a fydd yn caniatáu i'r Fforwm gynnig gwasanaethau a gweithgareddau newydd. Mae'r cais nawr wedi mynd ymlaen at y camau terfynol.

**THRESHOLD DAS LIMITED**

**Sir:** Sir Gaerfyrddin

**Prosiect Ymyrraeth Gynnar Teuluoedd – E-FIP – Rhaglen 'Dewisiadau' Cyflawnwyr: £5000**

Mae Cymorth i Fenywod Llanelli yn ddiweddar wedi newid ei enw i Threshold DAS Ltd er mwyn adlewyrchu'n well y modd y maent yn cefnogi menywod, dynion a'u plant. Cynigir cefnogaeth i ddynion fel dioddefwyr ond hefyd fel cyflawnwyr trais domestig. Mae'r Prosiect Ymyrraeth Gynnar Teuluoedd wedi bod yn gweithio am ddwy flynedd i gael eu rhaglen Cyflawnwyr i'r lefel sydd ei angen er mwyn cael ei achredu. Maent nawr yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i gael eu hasesu ar gyfer Achrediad Respect ac os byddant yn cyflawni hyn bydd yn eu helpu i sicrhau tair blynedd arall o gyllid gan y Gronfa Loteri Fawr.

**MILFORD YOUTH MATTERS**

**Sir:** Sir Benfro

**Prosiect Nos Wener Allgymorth Ieuenctid: £5000**

Amcan y prosiect yw ennyn diddordeb pobl ifanc 14-18 oed o ardal Aberdaugleddau mewn gweithgareddau cymunedol cadarnhaol, yn benodol y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bwriad y Prosiect Nos Wener yw symud grwpiau a nodwyd o ardaloedd yn y dref lle roeddent yn achosi pryder i berchnogion busnesau a'r gymuned.

**Stop it Now! Cymru**

**Siroedd:** Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys

**Atal Camdriniaeth a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar draws Cymunedau Gwledig: £4883**

Prosiect atal camdriniaeth rywiol yn erbyn plant yw hwn, gyda gweledigaeth am fyd lle mae hawl plant i fyw heb gamdriniaeth a chamfanteisio rhywiol yn dod yn realiti. Eu bwriad yw atal camdriniaeth rywiol yn erbyn plant a phobl ifanc drwy weithio gydag oedolion amddiffynnol, unigolion yr effeithiwyd arnynt gan gamdriniaeth a'r rhai hynny sy'n ei gyflawni, gan gynnwys pobl ifanc gydag ymddygiad rhywiol niweidiol. Gwnaethpwyd cais am y cyllid hwn er mwyn eu galluogi i

drosglwyddo cyfres o seminarau atal camdriniaeth rywiol yn uniongyrchol i rieni, gofalwyr a'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ar draws Awdurdodau Heddlu Dyfed Powys.

**<u>IEUENCTID SIR BENFRO</u>**

**Sir:** Sir Benfro

**'Greater Heights' wedi ei gynnal gan Weithwyr Ieuenctid yng Nghanolfan Ieuenctid Dinbych-y-pysgod: £5000**

Gwnaethpwyd cais am gyllid i redeg prosiect nos Wener rhwng 6-9yh am 25 sesiwn er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc 14+ oed mewn prosiect cadarnhaol yn hytrach na'u bod yn crwydro'r strydoedd. Bydd y prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddod i le cynnes, diogel yn ystod y nosweithiau ac yn ennyn eu diddordeb mewn creu gweithgareddau a phrosiectau, ac felly'n lleihau yfed tanoed a chamddefnyddio sylweddau.

**<u>AGE CYMRU SIR GAR</u>**

**Siroedd:** Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro

**Get Connected: £4970**

Cenhadaeth y sefydliad hwn yw gwella ansawdd bywyd pobl hŷn, drwy weithio gyda nhw a thrwy hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl hŷn a heneiddio. Mae'r prosiect wedi ei anelu at bobl hŷn 50+, a bydd yn darparu gwybodaeth ynghylch atal trosedd arlein ac yn lleol i'r grŵp hwn a all fod yn agored i niwed.

**<u>SEREN</u>**

**Siroedd:** Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion

**Gwasanaeth Cwnsela Seren: £5000**

Mae Seren yn darparu cwnsela arbenigol i oedolion sydd â phrofiad o gamdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, mewn lleoliadau hawdd cael mynediad iddynt. Mae gan Seren nifer sylweddol o gleientiaid ar eu rhestr aros yn dilyn cyfeiriadau gan Feddygon Teulu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, a bydd y cais hwn o gymorth wrth benodi gwirfoddolwyr newydd i helpu'r cleientiaid newydd hyn.

**<u>CWMNI THEATR ARAD GOCH</u>**

**Siroedd:** Sir Gaerfyrddin, Ceredigion

**Cynghorau Sirol Caerfyrddin a Cheredigion: £5000**

Mae hwn i gynorthwyo gyda Rhan 1 cynllun dwy flynedd o'r enw SXPLO. Yn ystod rhan un y cynllun maent yn bwriadu comisiynu sgript a fydd yn sail i gynhyrchiad theatr ar gyfer pobl ifanc. Bydd y ddrama newydd, SXPLO, yn ymdrin â chamdriniaeth rywiol, y modd y mae pobl ifanc yn cael eu cam-drin pan maent yn mynd yn gaeth i gyffuriau a'r cysylltiad rhwng y ddau. Yn ddibynnol ar ganlyniadau rhan gyntaf y cynllun, maent yn gobeithio datblygu'r ddrama ymhellach yn yr ail

flwyddyn er mwyn creu cynhyrchiad llwyfan cyflawn ar gyfer pobl ifanc. Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno mewn 12 ysgol yng Ngorllewin Cymru.